

## Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Dyddiad:** 19 Ionawr 2022 (10:40 – 11:40am)

**Teitl:** Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg (MEG) – Y Gymraeg

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau cyllidebol sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y cynigion ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2022-23<sup>1</sup>, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae Cyllideb ddrafft 2022-23, sef y Gyllideb gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer y chweched Senedd, yn nodi cynllun tair blynedd ar gyfer referniw a buddsoddiad cyfalaf a baratowyd ar ôl i ganlyniad Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn Llywodraeth y DU gael ei gyhoeddi ar 27 Hydref 2021.

### 1. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

1.1 Yng Nghyllideb ddrafft 2022-23, mae cyfanswm cyllideb y Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg yn cynyddu £5.8m yn 2022-23 i **£43.6m** (£43.551m adnoddau a £0.05m cyfalaf), gyda chynnydd pellach o £3m mewn adnoddau yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25. Erbyn 2024-25, cyfanswm cyllideb ddangosol y Gymraeg fydd **£51.1m** (£50.051m adnoddau a £0.05m cyfalaf). Crynhoir y newidiadau, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl adnoddau a chyfalaf, yn nhablau 1 a 2 isod.

TABL 1: Cyllideb Adnoddau – Cyfanswm y Gymraeg								
Cam Gweithredu	£000oedd							
	Llinell Wariant yn y Gyllideb	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	13,475	4,300	17,775	3,000	20,775	3,500	24,275
<b>Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg</b>		<b>13,475</b>	<b>4,300</b>	<b>17,775</b>	<b>3,000</b>	<b>20,775</b>	<b>3,500</b>	<b>24,275</b>
Y Gymraeg	Y Gymraeg	21,065	1,384	22,449	0	22,449		22,449
	Comisiynydd y Gymraeg <sup>2</sup>	3,207	120	3,327	0	3,327	0	3,327
<b>Cyfanswm y Gymraeg</b>		<b>24,272</b>	<b>1,504</b>	<b>25,776</b>	<b>0</b>	<b>25,776</b>	<b>0</b>	<b>25,776</b>
<b>Cyfanswm y Gymraeg Cyllidebau Adnoddau</b>		<b>37,747</b>	<b>5,804</b>	<b>43,551</b>	<b>3,000</b>	<b>46,551</b>	<b>3,500</b>	<b>50,051</b>

<sup>1</sup> Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academiaidd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

<sup>2</sup> Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys referniw o £3.207m ac arian heb fod yn arian parod o £0.120m (sy'n cynnwys £0.116m a drosglwyddwyd o Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg a £0.004m ychwanegol a ddyrannwyd o 2022-23).

TABL 2: Cyllideb Gyfalaf <sup>3</sup> – Cyfanswm y Gymraeg					
Cam Gweithredu	£000oedd				
	Llinell Wariant yn y Gyllideb	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25
Y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	30	50	50	50
Cyfanswm y Gymraeg		30	50	50	50
Cyfanswm Cyllidebau Cyfalaf y Gymraeg		30	50	50	50

- 1.2 Yn unol â chais y Pwyllgor, atodir dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2022-23, alldro terfynol ar gyfer 2020-21, ac alldro rhagolygol ar gyfer 2021-22, yn Atodiad A. Mae hyn yn cadarnhau mai'r alldro terfynol ar gyfer cyllidebau'r Gymraeg yn 2020-21 oedd £37.5m (£37.1m adnoddau a £0.4m cyfalaf) a'r alldro rhagolygol (yng nghyfnod 7) ar gyfer 2021-22 yw £40.2m (£39.9m adnoddau a £0.3m cyfalaf).
- 1.3 Mae'n bwysig nodi mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru, ac mae gwariant ar yr iaith wedi'i ymgorffori eisoes mewn llawer o bortffolios gweinidogol eraill. Fodd bynnag, rhoddir manylion pellach isod ynghylch y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) penodol yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni portffolio'r Gymraeg yn uniongyrchol.

## BEL y Gymraeg

- 1.4 Diben BEL y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir. Mae'r cyllid yn y BEL hwn wedi cynyddu bron £1.4m i **£22.449m** y flwyddyn o 2022-23.
- 1.5 Mae cyllid ychwanegol o **£1.2m** o 2022-23 wedi cael ei ddyrannu i'r Urdd i roi cymorth parhaus i ailadeiladu ei wasanaethau o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd yn sicrhau y caiff rhwydwaith o swyddogion datblygu eu cyflogi i gefnogi plant a phobl ifanc mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd y cyllid hefyd yn darparu rhaglen arbenigol o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.
- 1.6 Bydd swm pellach o **£0.3m** y flwyddyn yn helpu'r Eisteddfod Genedlaethol i adfer yn sgil yr heriau ariannol o orfod canslo'r Eisteddfod yn 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod gan yr Eisteddfod yr adnoddau angenrheidiol i helpu i gynllunio eisteddfodau yn y dyfodol. Yn sgil llwyddiant yr Eisteddfod AmGen i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn rhyngwladol, mae cyfle i eisteddfodau yn y dyfodol

<sup>3</sup> Yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23, mae £45m pellach hefyd yn cael ei fuddsoddi dros dair blynedd yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg i gefnogi'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg.

fabwysiadu dull gweithredu mwy cyfunol, sy'n cynnwys buddsoddiad pellach mewn rhyngweithio digidol ochr yn ochr â'r elfen draddodiadol o'r Eisteddfod. Mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i arddangos a hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg ymhellach i gynulleidfa ehangach.

- 1.7 Yn olaf, bu newid technegol hefyd i drosglwyddo £0.116m allan er mwyn dyrannu cyllideb dibrisiant anariannol Comisiynydd y Gymraeg (a ddyrannwyd yng Nghyllideb ddrafft 2021-22) yn gywir i BEL Comisiynydd y Gymraeg.
- 1.8 Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi'i chynnal ar lefel 2022-23 er mwyn cefnogi gweithgareddau partneriaeth gan gynnwys:
  - Cymraeg i Blant – helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r iaith i'w plant a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 2.15-2.16;
  - Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 3.1.1-3.1.7;
  - Cyflawni Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg;
  - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft drwy ddarparu grantiau i'r rhwydwaith o Fentrau Iaith, Merched y Wawr, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Chlybiau Ffermwyr Ifanc;
  - Cyllid ar gyfer Tribiwnlys y Gymraeg;
  - Gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

## **BEL Comisiynydd y Gymraeg**

- 1.9 Mae'r gyllideb hon (£3.327m adnoddau a £0.50m cyfalaf) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn adran 3.2. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:
  - Gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
  - Rhoi system Safonau'r Gymraeg ar waith;
  - Cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd;
  - Ymchwilio i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolyn i gyfathrebu yn Gymraeg;
  - Hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o'r iaith – yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat.

## **BEL y Gymraeg mewn Addysg**

- 1.10 Mae cyllideb Cymraeg mewn Addysg wedi cynyddu £4.3m yn 2022-23 i **£17.775m**, gyda chynnydd pellach o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25, i **£20.775m** a **£24.275m** yn y drefn honno.
- 1.11 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £8m erbyn 2024-25 (£1.5m yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o

£3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25), er mwyn sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gallu cynyddu cyfran y prentisiaethau a'r cyfleoedd addysg bellach sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gallu darparu cyfleoedd dysgu am ddim i unigolion 16-25 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn adeiladu ar gyllideb bresennol y Coleg sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddi drwy ddarparu sesiynau hyfforddi a mentora drwy Sgiliaith, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i ennyn hyder mewn addysgu'n ddwyieithog a helpu'r sector prentisiaethau i feithrin gallu addysgu. Mae gan y Coleg gydberthynas waith agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisoes, a bydd cydweithio pellach yn atgyfnerthu'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r sector ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

1.12 Yn ogystal â'r cyllid a amlinellir yn y Cytundeb Cydweithio, nodwyd buddsoddiad pellach hefyd drwy ailbwrpasu cyllid yn y MEG Addysg a'r Gymraeg er mwyn rhoi swm ychwanegol o £2.2m o 2022-23 i gefnogi'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ehangu darpariaeth trochi yn y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu cynnal lefel y cyllid ar ôl i swm ychwanegol o £2.2m gael ei ddyrannu i'r rhaglen yn 2021-22. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraff 2.36 ac adran 3.1. Byddwn hefyd yn darparu swm ychwanegol o £0.35m i gefnogi'r rhaglen e-sgol a fydd yn darparu cyfanswm cyllid o £0.6m y flwyddyn o 2022-23, er mwyn datblygu'r prosiect ymhellach a chynnig cyfleoedd i ysgolion a disgyblion ddefnyddio'r model addysgu hyblyg a gwerthfawr hwn.

1.13 Mae BEL y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn *Cymraeg 2050*, gan gynnwys:

- Cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwaith paratoadol ar gyfer rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd newydd ar waith yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraff 2.33-2.35;
- Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraff 3.1.15;
- Mae cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn broses barhaus ac yn rhan o'r targedau yn Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26 i gynyddu dilyniant ieithyddol rhwng addysg statudol ac addysg bellach ac i ddatblygu prentisiaethau.

## 2. Gwybodaeth Arall

***Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolio y Gymraeg a chanlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.***

2.1 O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a

nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

- 2.2 Caiff cynnydd yn erbyn [Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026](#) ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi [Cynllun Gweithredu](#) blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn adrodd yn ôl ar y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.
- 2.3 Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl drwy roi cyngor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at darged 2050 ac effeithlonrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae is-grwpiau yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor Partneriaeth ac yn ymgymryd â gwaith a chraffu manylach, er enghraifft ym maes defnyddio'r iaith yn y gymuned, cydraddoldeb a'r economi. Mae Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru, ac mae'n prif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.
- 2.4 O ran gwaith ymchwil a gwerthuso, mae gennym Gynllun Tystiolaeth blynyddol sy'n nodi bylchau yn y dystiolaeth ar y Gymraeg ac yn nodi rhaglen o waith dadansoddi i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig, a nod canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad hwnnw oedd llywio'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd canfyddiadau gwerthusiad o'r [Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg](#) ar gyfer ymarferwyr addysg. Mae ein gwaith dadansoddi yn ystod 2021 wedi cynnwys dwy astudiaeth ymchwil ar ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg. Roedd yr astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar dystiolaeth a gyhoeddwyd ynghylch darpariaeth trochi hwyr yn rhyngwladol ac yng Nghymru, gan nodi themâu ac elfennau tebyg allweddol (adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021), ac yn mapio darpariaeth trochi hwyr ledled Cymru (adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021). Mae'r ddwy astudiaeth wedi llywio trafodaethau ynghylch ehangu darpariaeth trochi hwyr o amgylch Cymru yn unol â gwaith cynllunio CSCA. Arweiniodd hyn hefyd at ymrwymiad i ddarparu £2.2m o gyllid referniw i gefnogi darpariaeth trochi yn y Gymraeg.
- 2.5 Ar 10 Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd adroddiad ymchwil [Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedau iaith Gymraeg – canfyddiadau arolwg](#). Yn seiliedig ar y canfyddiadau, cyflwynodd un o Is-Grwpiau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, dan gadeiryddiaeth Dr Simon Brooks, [nifer o argymhellion](#).
- 2.6 Cyhoeddais ein [hymateb i'r argymhellion hynny](#) ym mis Gorffennaf 2021. Byddwn yn annog partneriaid sy'n derbyn cyllid grant gennym i gydweithio'n agos â grwpiau cymunedol Cymraeg y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt drwy eu helpu i ailddechrau. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o rymuso cymunedau lleol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol a arweinir gan y gymuned.

- 2.7 Yn gysylltiedig â hyn, rydym wrthi'n cynnal Adolygiad o'r Cynllun Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Nod yr adolygiad yw asesu sut mae'r Cynllun cyfredol wedi cael ei gynllunio a'i roi ar waith, a chynnig arweiniad wrth inni gynllunio model cyllido i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol.
- 2.8 Rydym wedi defnyddio canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd gennym yn 2017: Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd i lywio ein polisi newydd ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2021. Mae ein polisi yn darparu sail ar gyfer rhaglen waith 10 mlynedd. Nod y polisi yw galluogi'r teuluoedd hynny sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg eisoes i ddefnyddio pa bynnag Gymraeg sydd ganddynt gyda'u plant. Un o'r camau cyntaf wrth roi'r polisi hwn ar waith fydd ystyried gwaith gyda theuluoedd mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n defnyddio'r gwyddorau ymddygiad er mwyn inni weld pa wersi y gallwn eu dysgu o hyn a datblygu ymyriadau ar gyfer ein hiaith yn seiliedig arnynt.
- 2.9 Yn ogystal â'r gwerthusiadau hyn, cyhoeddwyd Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau ym mis Chwefror 2020. Mae'r adolygiad yn asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ar y gydberthynas rhwng iaith a'r economi, ynghyd â'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hyn. O ganlyniad i'r adroddiad, sefydlodd fy rhagflaenydd is-grŵp yr Economi a'r Gymraeg o fewn Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Aeth yr is-grŵp ati i ystyried canfyddiadau'r adroddiad yn ogystal â thystiolaeth arall o'r gydberthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Nod yr is-grŵp yw rhoi cyngor i Weinidogion ar sut y gellir mynd ati i atgyfnerthu'r gydberthynas rhwng datblygu economaidd a'r Gymraeg, a'r ymyriadau economaidd y gellir eu rhoi ar waith er mwyn atgyfnerthu economi Cymru. Bydd y rhain, yn eu tro, yn cefnogi'r Gymraeg hefyd.
- 2.10 Rydym wedi gwneud gwaith i ganfod barn ein cynulleidfaoedd targed ynglŷn â'n hiaith. Rydym yn cynyddu'r gwaith gwyddor-ymddygiadol rydym yn ei wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae deall ymddygiadau o ran iaith ac agweddau tuag at y Gymraeg yn un rhan o hyn. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn llywio ein gwaith marchnata a'r ffordd rydym yn targedu ein cynulleidfa, a bydd yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa gywir yn y ffordd gywir. Ochr yn ochr â llawer o'n partneriaid, rydym yn gweithio tuag at greu dull 'un llais' o hyrwyddo'r Gymraeg, a thrwy hynny leihau achosion o ddyblygu gwaith. Y nod yw y bydd y gwaith hwn yn cael ei fwydo i mewn i waith arall hefyd, ac yn cyfrannu at greu agwedd fwy ffafriol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.11 At hynny, gallai ein targed o gynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg drwy sicrhau bod 150 yn fwy o grwpiau meithrin wedi'u sefydlu erbyn 2028 leihau gwariant ar waith hyrwyddo ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at feithrin yr amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymyriadau pellach, er enghraifft y Siarter Iaith (sy'n annog plant ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o oedran cynnar).

- 2.12 Mae'r dirwedd ddigidol yn cynnig ffordd arloesol o ymdrin â'r Gymraeg hefyd, a gallai sawl elfen ohoni gael eu hystyried fel gwariant ataliol neu 'unwaith i Gymru'. Mae ein [Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg](#) yn cynnwys sicrhau bod elfennau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal er mwyn sicrhau y gallant gael eu defnyddio a'u haildefnyddio gan bawb o dan drwydded ganiataol addas. Mae'n hanfodol bod technoleg Cymraeg yn cael ei lledaenu hefyd er mwyn normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i'w defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Lanswyd y Cynllun ar 23 Hydref 2018. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd fy rhagflaenydd [adroddiad cynnydd ar y Cynllun hyd yma](#). Nododd yr adroddiad hwn ein bod wedi cwblhau 19 o'r 27 o becynnau gwaith a nodwyd yn y cynllun, neu eu bod yn cael eu rhoi ar waith.
- 2.13 Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae ein cynlluniau gwariant yn anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor.

***Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth y Gymraeg Cymraeg 2050, yn enwedig dyraniadau i gyflawni'r 'cerrig milltir' a nodir yn Rhaglen Waith 2021-2026***

- 2.14 Ers lansio *Cymraeg 2050* yn 2017, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gerrig milltir, gan gynnwys targedau o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Rydym yn dilyn trywydd a ddatblygwyd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Mae'r byd wedi newid yn ddramatig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym wedi ymrwymo i adolygu'r holl dargedau unwaith y caiff data Cyfrifiad 2021 eu rhyddhau. Yn y cyfamser, rydym yn dilyn ein Rhaglen Waith fanwl ar gyfer 2021-26 sy'n ystyried sut mae Brexit a COVID-19 wedi newid cymdeithas ac yn cynnwys 58 o feysydd gweithredu. Nodir isod ein cynnydd yn erbyn y cerrig milltir lefel uchel.

***Carreg filltir: cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011***

- 2.15 Er mwyn cefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn rhaglen Cymraeg i Blant o 2022-23, gyda chyllid o £0.73m yn parhau. Amcanion y prosiect yw helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, a rhwydwaith o swyddogion sy'n helpu teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, ac yn cefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Yn 2019-20, cyn y pandemig, darparwyd bron 4,000 o sesiynau cymorth i fwy na 30,000 o rieni a phlant. Pan gyflwynwyd y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, bu'n rhaid rhoi'r gorau i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb ond ymatebodd y rhaglen drwy gynnig cymorth ar-lein yn lle hynny. Yn 2020-21, er gwaethaf y pandemig, darparwyd bron 4,000 o sesiynau cymorth byw i fwy na 7,000 o rieni a 4,000 o blant, a hynny'n ychwanegol at fwy na 3,700 o sesiynau cymorth a recordiwyd. Mae

sesiynau wyneb yn wyneb yn dechrau cael eu hailgyflwyno wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, ond mae'r elfennau rhithwir a ddatblygwyd yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r cymorth.

2.16 Mae Cymraeg i Blant yn cefnogi ein polisi cenedlaethol newydd ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Mae annog teuluoedd i ddewis Cymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalmwyr yn cael y cymorth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae rhaglen trosglwyddo'r Gymraeg a defnydd mewn teuluoedd yn gweithio gyda swyddogion Cymraeg i Blant i gynllunio ymyriadau yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd.

### **Carreg filltir: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

2.17 Yn y pen draw, nod pob un o'r ymyriadau yn fy mhortffolio, ac felly'r holl ddyraniadau cyllidebol cyfatebol, yw cynyddu'r defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir o ran BEL y Gymraeg a BEL Comisiynydd y Gymraeg. O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, a'r broses o reoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r iaith.

2.18 Ymhlith y prosiectau a'r partneriaid a ariennir o dan BEL y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r iaith mae'r canlynol:

- Yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Yr Urdd;
- Y rhwydwaith o fentrau iaith;
- Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru;
- Merched y Wawr;
- Papurau Bro;
- Prosiect ARFer Prifysgol Bangor i gynyddu sgiliau rhyngpersonol, cyfathrebu a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy addewidion ymddygiadol;
- Cronfa i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector ôl-16.
- Siarter Iaith;
- Cymraeg i Blant;
- Dydd Miwsig Cymru;
- Rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog (a ddatblygwyd ar y cyd ag Academi Cymru).

2.19 Er bod COVID-19 wedi newid y byd o'n hamgylch yn ddramatig, mae'n galonogol gweld sut mae pobl wedi ymateb yn gadarnhaol i'r her. Roedd yr 'Eisteddfod T' a'r 'Eisteddfod AmGen' newydd yn enghreifftiau o ymatebion creadigol i'r pandemig. Gwelwyd ymdrech eithriadol gan y Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr i ddatblygu gwasanaeth gwirfoddol pwrpasol i gefnogi cymunedau lleol. Cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar-lein gan y rhwydwaith o fentrau iaith. Ers mis Mawrth 2020, rydym wedi gweld mwy o ddysgwyr yn



cofrestru ar gyfer cyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol nag a welwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf gyda'i gilydd. Mae hyn oll yn dangos y gwaith pwysig y mae ein partneriaid wedi bod yn ei wneud, yn llywio polisi iaith Gymraeg ac yn cyflawni nodau *Cymraeg 2050* yn ystod y cyfnod anodd hwn.

- 2.20 Wrth i'r pandemig barhau, rydym yn dal i addasu iddo. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi dyrannu swm ychwanegol o £0.2m o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n cael ei ddefnyddio i helpu'r Eisteddfod i ailadeiladu a chynllunio'r Eisteddfodau yn Nhregaron a Phen Llŷn yn ystod 2022 a 2023. Fel yr amlinellir ym mharagraff 1.6, rydym yn darparu swm ychwanegol o £0.3m y flwyddyn i'r Eisteddfod Genedlaethol o 2022-23 i'w helpu i adfer yn sgil yr heriau ariannol a welwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19.
- 2.21 Yn 2020-21, darparwyd £1.3m i'r Urdd i'w helpu i ddechrau ailadeiladu ei wasanaethau a'i ddarpariaeth. Wynebodd yr Urdd heriau ariannol difrifol yn sgil COVID-19, gan gynnwys yr incwm a gollwyd o'i weithgareddau a'i ganolfannau preswyl. Gwnaeth y cyllid ychwanegol helpu'r Urdd i sefydlu rhwydwaith o swyddogion datblygu cymunedol a diwylliannol, a seilwaith prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i greu cyfleoedd swyddi newydd i bobl ifanc. Mae'r cyllid hwn, ynghyd â £0.527m a ddarparwyd yn 2021-22 i sicrhau mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd 2022, sef un o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn rhoi'r Urdd mewn sefyllfa lawer cryfach ar gyfer y dyfodol. Fel yr amlinellir ym mharagraff 1.5, rydym yn mynd gam ymhellach drwy roi swm ychwanegol o £1.2m i'r Urdd o 2022-23 i'w alluogi i barhau i adfer a sicrhau'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth gymunedol a diwylliannol a ddarperir i blant a phobl ifanc sy'n hanfodol i'n huchelgeisiau yn *Cymraeg 2050*.
- 2.22 Ymhlith y gweithgareddau a ariennir o BEL y Gymraeg mewn Addysg mae datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, datblygu a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau), cymorth ar gyfer colegau addysg bellach a hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog, cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac arwain gwaith datblygu ôl-16. Ymhlith y gweithgareddau eraill a ariennir mae datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi addysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn effeithio ar y defnydd o'r iaith.
- 2.23 Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol gyda'r nod o greu dinasyddion dwyieithog y dyfodol, a fydd:
- yn siaradwyr Cymraeg greddf, naturiol, cyfforddus a hyderus.
  - eisiau defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd.
  - yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd p'un a ydynt yn dod o gartrefi lle y caiff y Gymraeg ei siarad ai peidio.
  - yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith.
  - yn bendant ynghylch eu Cymreictod a'u defnydd o'r iaith.

2.24 Mae'r Siarter Iaith yn cynnwys pedwar prosiect:

- Mae'r Siarter Iaith a'r Siarter Iaith Uwchradd yn cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y drefn honno.
- Mae *Cymraeg Campus* yn weithredol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
- Mae *Cymraeg Bob Dydd* yn weithredol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

2.25 Byddwn yn dyrannu £713,000 i'r rhaglen ar gyfer 2022-23. Rydym yn rhoi £138,200 i'r Urdd i gyflwyno *Cymraeg Bob Dydd* a chaiff £518,770 ei ddyrannu i'r consortia rhanbarthol (neu'r awdurdodau lleol perthnasol yn achos canolbarth a gorllewin Cymru) i weithio gydag ysgolion i gyflwyno'r rhaglen. Caiff y gweddill ei ddefnyddio i gyllido gweithgareddau cenedlaethol megis cyhoeddi llyfrau Seren a Sbarc ac adnoddau eraill. Mae'r prosiect hwn yn rhan allweddol o'r gwaith a wnawn i gynyddu'r defnydd o'r iaith a bydd yn parhau yn 2022-23.

2.26 Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd o iaith. Dechreuwyd ar y gwaith o lunio arolwg defnydd iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd disgwyl i'r gwaith hwnnw barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, daeth y gwaith hwnnw i ben yn gynharach nag a fwriadwyd, yn ystod mis Mawrth 2020. Arolygon defnydd iaith yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2019-20, roedd 10% o bobl tair oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg yn ddyddiol ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau (dylid nodi na chaiff siaradwyr Cymraeg sydd ond yn gallu siarad ychydig eiriau eu cynnwys yma, ni waeth pa mor aml y maent yn siarad yr iaith). Dyma'r un ganran a nodwyd yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Fodd bynnag, wrth edrych yn benodol ar siaradwyr Cymraeg tair oed neu'n hŷn yng Nghymru, roedd dros hanner (56%) yn siarad yr iaith yn ddyddiol (ni waeth beth fo'u lefel rhuglder) o gymharu â 53% yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Roedd cynnydd bach hefyd yn y rhai a oedd yn ystyried eu bod yn rhugl yn Gymraeg (o 47% i 48%) ac roedd dwy ran o dair o siaradwyr Cymraeg yn cytuno (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod siarad Cymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth.

2.27 Mae *Cymraeg 2050* yn bolisi trawsbynciol, a gefnogir nid yn unig drwy BEL y Gymraeg a BEL y Gymraeg mewn Addysg. Er enghraifft, cefnogir y Cynllun Sabothol a CYDAG drwy'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Dyrannwyd swm ychwanegol o £1m hefyd i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu yng Nghyllideb y Llynedd ar gyfer adnoddau dwyieithog i gefnogi proses effeithiol o roi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith.

**Carreg filltir: Ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu sector Cymraeg y blynyddoedd cynnar drwy greu 60 grŵp newydd erbyn 2026**

2.28 Mae cyllid blynyddol o £3.031m wedi galluogi Mudiad Meithrin i gefnogi ei aelodaeth o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi er mwyn atgyfnerthu ac ehangu ei wasanaethau. Mae pandemig COVID-19 wedi dwysáu'r angen am y

gefnogaeth hon, yn enwedig ar gyfer Cylchoedd Ti a Fi nad oeddent yn gallu cyfarfod oherwydd y cyfyngiadau yn sgil COVID-19.

- 2.29 O 2022-23, byddwn yn parhau i gynorthwyo Mudiad Meithrin i ehangu ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon. Er gwaethaf y pandemig, mae cyllid hefyd wedi galluogi Mudiad Meithrin i barhau â rhaglen sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd o Gymru lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.30 Drwy'r gwaith hwn, sefydlwyd 43 o grwpiau newydd yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen hyd at 2021, a phennwyd targed ar gyfer sefydlu 60 o grwpiau pellach yn ystod y pum mlynedd ddilynol. Mae'r gwaith o ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau wedi parhau hefyd. Eleni, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys sesiynau sydd wedi'u teilwra i ymateb i'r heriau y mae'r sector blynyddoedd cynnar wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn hon. Caiff y gyllideb hon ei chynnal yn 2022-23 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i adeiladu ar allu'r blynyddoedd cynnar i gynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.31 Mae Mudiad Meithrin yn parhau i hyrwyddo addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Un enghraifft nodedig o hyn yw'r gyfres o bodlediadau [Baby Steps into Welsh](#). Mae'r podlediad, a gyflwynir gan Nia Parry, yn rhoi cyfle i rieni drafod yn agored a rhannu eu profiadau go iawn o addysg cyfrwng Cymraeg.

**Carreg filltir: Cynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg o 23% (2020 i 2021) i 26% yn 2026.**

- 2.32 Gwelwyd cynnydd o ychydig o dan un pwynt canrannol yn nifer y plant Blwyddyn 2 (plant 7 oed fel arfer) a asesir drwy'r Gymraeg fel iaith gyntaf (o 22.0% yn 2015 i 2016 i 22.8% yn 2020 i 2021). Er nad yw'r targed a bennwyd yn Rhaglen Waith gyntaf *Cymraeg 2050*, sef 24% o blant blwyddyn 2 mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2021, wedi'i gyflawni, mae arwyddion calonogol mewn cohortau iau, lle roedd 23.8% o blant dosbarth Derbyn (plant 5 oed fel arfer) yn cael eu haddysgu yn Gymraeg yn 2020 i 2021. Mae gwaith yn y maes polisi hwn yn cynnwys nifer o ffrydiau gwahanol.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau)

- 2.33 Rydym wedi dyrannu £0.1m o BEL y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau). O dan y ffrwd waith hon, daeth *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) 2020* i rym ar 1 Rhagfyr 2020. Roedd y rheoliadau hyn yn nodi trefniadau newydd ar gyfer paratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith. Mae darpariaethau newydd yn cynnwys cyflwyno cynlluniau tymor hwy (10 mlynedd), yn ogystal â Chynlluniau a baratoir ar sail targedau clir ac uchelgeisiol. Mae'r targedau hyn wedi cael eu cyfrifo yn y fath fodd ag sy'n dangos y cyfraniad y mae angen i awdurdodau lleol unigol ei wneud er mwyn cefnogi targedau cerrig milltir addysg *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

2.34 Yn 2022-23, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad ynghylch cyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys pecyn o adnoddau digidol y gall ALLau eu defnyddio).
- Caffael ymgynghorwyr y Gymraeg ac addysg i roi cyngor i ALLau ar agweddau ar roi CSCAau ar waith, fel dilyniant o ddarpariaeth gynradd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg a gwaith yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion a throchi.
- Cymorth i roi'r CSCAau newydd ar waith.

2.35 Byddwn hefyd yn datblygu cynigion yn ystod tymor y Senedd hon ar gyfer deddfu i gefnogi'r strategaeth ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg gydol oes drwy'r Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg.

### Trochi hwyr

2.36 Mae trochi hwyr yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith a wnawn i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 3.1.8-3.1.11.

### Categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg

2.37 At hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ganllawiau ynghylch categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ddaeth i ben ar 26 Mawrth 2021. Y nod yw galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol, fel rhan o'r ymrwymadau a nodir gennym yn *Cymraeg 2050* a'r broses o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, i roi eu hunain yn y categori cywir o ran ysgol a datblygu cynllun cliriach ar gyfer symud ar hyd y continwmm iaith drwy gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir. I lawer o awdurdodau lleol, bydd y polisi hwn yn cefnogi eu targedau CSCA drwy wella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd a galluogi mwy o ddysgwyr i ddilyn addysg cyfrwng Cymraeg a / neu ddysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Ein nod yw cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gatedoreiddio ysgolion ym mis Rhagfyr 2021.

### Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg

2.38 Byddwn hefyd yn datblygu cynigion yn ystod tymor y Senedd hon ar gyfer deddfu i gefnogi'r strategaeth ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg gydol oes drwy'r Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg.

**Carreg filltir: cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031 fel a ganlyn.**

2.39 Bydd y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer gweithgareddau sydd â'r nod o gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon yn cynnwys y cyllid canlynol o 2022-23:

- Tua £0.8m ar gyfer cynllun cymell cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory sy'n targedu athrawon dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg ac yn eu hannog i astudio rhaglen AGA (Statws Athro Cymwysedig) uwchradd ôl-raddedig gymwys a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r llinell yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i raglenni AGA. Yn ogystal, caiff y cynllun cymell ei dalu ar ddau bwynt yng ngyrfa gynnar athro (wrth ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig ac ar ôl cwblhau'r cyfnod Sefydlu) ac mae gan athrawon nifer o flynyddoedd i hawlio pob rhandaliad. Felly mae dyraniad cyllidebol pob blwyddyn yn cwmpasu nifer o gohortau hyd at eu priod ddyddiadau terfyn ac mae'r dyraniad olaf a'r gwariant yn amrywio yn dibynnu ar alw yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Caiff cyllid ychwanegol ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i roi'r cynllun 10 mlynedd sydd ar ddod ar gyfer y gweithlu Cymraeg mewn addysg ar waith. Caiff cyfanswm o £1.845m ei ddyrannu yn 2022-23 (cynnydd o £1m) gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2023-24 a £2m yn 2024-25. Caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu er mwyn cefnogi nodau'r cynllun, ac mae'n debygol o gynnwys cyllid ar gyfer y canlynol, ymhlith datblygiadau eraill sydd wrthi'n cael eu hystyried o hyd:
  - ehangu'r rhaglen bontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn rhoi cymorth i athrawon drosglwyddo o addysgu yn y sector cynradd i addysgu yn y sector uwchradd.
  - gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Genedlaethol a rhanddeiliaid eraill i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Cymraeg Safon Uwch er mwyn cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg yn y dyfodol.

2.40 Byddaf yn cyhoeddi ffigurau mewn perthynas â'r cynnydd yn erbyn y targed hwn yn Adroddiad Blynyddol Cymraeg 2050 ar gyfer 2020-21.

2.41 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn arwain prosiect peilot i gymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Bydd y Ganolfan yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector addysg i gynnig cwrs hyfforddi i fyfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Yn y dyfodol, bydd y prosiect hefyd yn cynnwys lleoliad mewn ysgol uwchradd. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn denu pobl ifanc i'r byd addysgu a'r sector Dysgu Cymraeg, ac yn helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ar yr un pryd.

### 3. Meysydd Penodol

#### 3.1 Diweddariadau ar ddyraniadau yng nghyllideb 2021-22

***Gwybodaeth am y swm o £13.01 miliwn a ddyrannwyd i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a diweddariad ar y swm o £0.2m a ailgyfeiriwyd i gyllido prosiectau seilwaith yn ymwneud â'r Gymraeg.***

3.1.1 Dyrannwyd cyfanswm o £13.01m o BEL y Gymraeg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2021-22. Rhannwyd y dyraniad hwn fel a ganlyn:

£8.660m i gyllido'r 11 o ddarparwyr sy'n darparu'r cyrsiau hyfforddi, £2.5m ar gyfer menter Cymraeg Gwaith a £1.85m i dalu am gostau rhedeg y Ganolfan.

3.1.2 Yn dilyn gostyngiad mewn cyllid yn ystod 2020-21 yn sgil pandemig COVID-19, sicrhaodd y dyraniad ar gyfer 2021-22 fod cyllideb y Ganolfan yn dychwelyd i'r lefel a welwyd cyn COVID-19 (cyllideb derfynol 2020-21) ac eithrio £0.2m. Cafodd y swm hwn o £0.2m ei ailgyfeirio i gyllido prosiectau seilwaith yn ymwneud â'r Gymraeg.

3.1.3 O ran seilwaith ieithyddol, cymerwyd nifer o gamau yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan gynnwys sefydlu panel i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag orgraff, a grŵp gorchwyl a gorffen i safoni termau ym maes cydraddoldeb, hil ac ethnigrwydd. Rhwng 16 Mawrth a 6 Gorffennaf 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad ar bolisi cenedlaethol drafft ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Mae'r gwaith paratoadol hwn yn gam pwysig ymlaen yn y maes polisi hwn, ac roedd angen ei wneud cyn y gallem fynd ymhellach.

3.1.4 Ni chafodd y gostyngiad o £0.2m yng nghyllid y Ganolfan effaith ar lefelau'r gwasanaeth a ddarparwyd i ddysgwyr ac ni chafodd unrhyw swyddi eu colli yn y sector o ganlyniad iddo. Roedd y gostyngiad hwn yn bosibl oherwydd yr arbedion gweithredol a wnaed o ganlyniad i leihad mawr yn nifer y gwersi wyneb yn wyneb a gynhaliwyd, a'r ffyrdd gwahanol o weithio a ddatblygwyd gan y Ganolfan yn ystod argyfwng COVID-19.

3.1.5 Yn sgil COVID-19, mae'r mwyafrif helaeth o ddarpariaeth Dysgu Cymraeg y Ganolfan yn cael ei chyflwyno ar-lein yn ystod 2021-22. Symudwyd tua 1,500 o ddosbarthiadau i lwyfannau ar-lein, a bu tua 500 o diwtoriaid yn addysgu gwersi o'u cartrefi i 13,000 o ddysgwyr mewn ystafelloedd dosbarth ar-lein. Sicrhaodd y Ganolfan fod y newid hwn mewn dulliau dysgu yn bosibl drwy ail flaenoriaethu ei rhaglen waith a chyflymu'r broses o ddatblygu adnoddau digidol er mwyn hwyluso dysgu ar-lein.

3.1.6 Aeth y Ganolfan ati i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu cyrsiau cyfunol newydd hefyd, a lansiodd ym mis Mai 2020. Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu i ddysgwyr wneud rhywfaint o ddysgu annibynnol gan ddefnyddio adnoddau ar-lein, ond mae ganddynt gyswllt rheolaidd ffurfiol â thiwtor a dysgwyr eraill hefyd. Mae 880 o ddysgwyr wedi cofrestru ar y cyrsiau cyfunol hyn. Mae'r Ganolfan wedi parhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu adnoddau hunanastudio ar-lein hefyd, y mae rhai ohonynt wedi cael eu datblygu ar gyfer staff sy'n gweithio mewn sectorau penodol.

3.1.7 Cafodd cyllid Cymraeg Gwaith ei adfer yn llawn i £2.5m yn 2021-22 sydd wedi caniatáu i'r fenter bwysig honno dychwelyd i'w llawn gapasiti a chynnig cymorth gwell i sectorau penodol. Mae rhai cyrsiau Cymraeg Gwaith wyneb yn wyneb wedi aildechrau hefyd yng nghanolfan iaith Nant Gwrtheyrn.

***Diweddariad ar geisiadau ar gyfer y gronfa ychwanegol o £2.2 miliwn a gyhoeddwyd i gefnogi trochi hwyr lefel ysgol ar gyfer dysgu Cymraeg.***

3.1.8 Mae Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26 a'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ein hymrwymiad i ymestyn y Rhaglen Trochi Hwyr er mwyn sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pryd a ble mae ei hangen arnynt, ble bynnag y maent ar eu siwrnai iaith.

3.1.9 Ar 14 Medi 2021, cyhoeddwyd buddsoddiad o £2.2m yn y flwyddyn ariannol hon i helpu dysgwyr Cymraeg i ymgymryd â gweithgarwch trochi hwyr mewn ysgolion ac i gefnogi cynnydd dysgwyr Cymraeg yn sgil COVID-19. Nod y cyllid grant hwn yw ehangu darpariaeth trochi hwyr yn y Gymraeg mewn ysgolion a chanolfannau, a chafodd pob awdurdod lleol y cyfle i wneud cais am hyd at £100,000 o gyllid i'w wario cyn diwedd mis Mawrth 2022. Mae'r cyllid grant hwn wedi'i anelu'n benodol at brosiectau a fydd yn cyfrannu at gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd yn cefnogi buddsoddiadau sy'n hwyluso datblygiad neu dwf darpariaeth trochi yn y Gymraeg, yn benodol:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu canolfannau i hwyrddyfodiaid / darpariaeth drochi newydd neu ehangu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.
- Hyfforddiant ar gyfer staff ar ddarparu methodoleg addysgu trochi yn y Gymraeg.
- Prosiectau sy'n lliniaru effeithiau COVID-19 ar ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ar ôl nodi grwpiau y mae angen cymorth iaith ychwanegol arnynt.

3.1.10 Er mwyn helpu'r awdurdodau lleol i baratoi eu cynigion, cynhaliodd swyddogion ddau gyfarfod ar eu cyfer. Yn sgil hyn, cyflwynwyd cynigion cryf gan yr holl awdurdodau lleol ar gyfer y swm o £2.2m. Ymhlith y ceisiadau allweddol am gyllid mae'r canlynol: amser addysgu ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth drochi gyfredol neu gymorth i ddysgwyr mewn perthynas â COVID; cynlluniau peilot ar gyfer darpariaeth drochi dros dro; caffael hyfforddiant arbenigol mewn methodolegau ac adnoddau trochi; prosiectau cwmpasu i bennu darpariaeth i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar fodolau ALI eraill. Anfonwyd llythyrau grant yn seiliedig ar y cynigion a gyflwynwyd i bob awdurdod lleol ar 1 Rhagfyr. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei groesawu gan awdurdodau lleol ac ymarferwyr ysgol drwyddi draw.

3.1.11 Yn y Gyllideb hon, mae swm ychwanegol o £2.2m wedi cael ei ddyrannu o 2022-23 ymlaen i wella darpariaeth trochi hwyr ymhellach ledled Cymru a byddwn yn monitro cynnydd yn agos.

***Gwybodaeth am y £1.65 miliwn yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi'r Cynllun Sabothol, a diweddariad ar y swm ychwanegol o £1m a ddyrannwyd ar gyfer adnoddau dwyieithog i gefnogi proses effeithiol o roi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith.***

#### Cynllun Sabothol

3.1.12 Rydym yn cynnig y dylid parhau i gefnogi'r Cynllun Sabothol o 2022-23 gyda chyllideb o tua £3.6m y flwyddyn, er mwyn cadw'r un lefel o gyllid ag a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Daeth y gyllideb ar gyfer y Cynllun Sabothol o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon a'r BEL Gwella Safonau mewn Ysgolion

yn flaenorol. O 2022-23 ymlaen, caiff yr holl gyllid ei ddyrannu o'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon.

3.1.13 Yn dilyn cyhoeddi'r [gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol](#) ym mis Mawrth 2021, rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r argymhellion a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd academaidd 2022/23 a 2023/24 er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi anghenion lleol ar gyfer gwella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i dysgu. Rydym hefyd wedi gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y cyrsiau yn gallu cael eu cynnal o hyd drwy fodelau dysgu cyfunol, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion ac ymarferwyr.

3.1.14 Yn ogystal â'r Cynllun Sabothol, mae cyfanswm o tua £2.7m wedi cael ei ddyrannu'n flynyddol i'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth yn y Gymraeg i ymarferwyr yn lleol ac yn rhanbarthol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ystod 2021-22 i ddatblygu cyrsiau hunanastudio sydd wedi'u teilwra ar gyfer ymarferwyr addysg.

#### Gwerth £1m o adnoddau dwyieithog

3.1.15 Mae gwaith yn mynd rhagddo ers peth amser i ddatblygu adnoddau a deunyddiau ategol ar gyfer ysgolion a lleoliadau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn blaenoriaethu gwaith datblygu sy'n gysylltiedig â newidiadau amlwg i ofynion y cwricwlwm a blaenoriaethau cytûn. Yn eu plith mae adnoddau dwyieithog newydd sy'n cwmpasu agweddau ar gynllunio a datblygu'r cwricwlwm ac asesu, yn ogystal â rhai sy'n cwmpasu meysydd o'r cwricwlwm, gan gynnwys:

- Darllen
- Mathemateg a rhifedd
- Ieithoedd rhyngwladol
- Iaith Arwyddion Prydain
- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
- Y cyfryngau, llythrennedd a chamwybodaeth
- Gwleidyddiaeth
- Hawliau plant
- Hanes Cymru, gan gynnwys hanes a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cerddoriaeth
- Dawns

***Manylion y swm o £0.73 miliwn a ddyrannwyd i Cymraeg i Blant a sut mae'r cyllid hwnnw wedi cael ei ddefnyddio.***

3.1.16 Amlinellir manylion y swm o £0.73m a ddyrannwyd i Cymraeg i Blant ym mharagraffau 2.15-2.16.



### **3.2 Comisiynydd y Gymraeg**

#### ***Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â'r gyllideb a ddyrannwyd i Gomisiynydd y Gymraeg yn 2022-23.***

- 3.2.1 Dyraniad adnoddau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2022-23 yw £3.327m. Mae'r swm hwnnw'n cynnwys yr un faint o gyllid refeniw, sef £3.207m, a chyllideb dibrisiant anariannol o £0.120m.
- 3.2.2 Yn ei gyllideb amcangyfrifedig ar gyfer 2022-23, gofynnodd y Comisiynydd am gyllid refeniw ychwanegol i'w alluogi i gyllido achosion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w waith a'i swyddogaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn amhosibl i'r Comisiynydd ragfynegi'n fanwl gywir a fydd angen iddo gyllido achosion cyfreithiol yn ystod blwyddyn ariannol a'r costau a fyddai ynghlwm wrth wneud hynny. Felly, byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i fonitro'r sefyllfa hon yn ystod y flwyddyn ariannol.
- 3.2.3 Yn 2021-22, derbyniodd y Comisiynydd ddyraniad cyfalaf ychwanegol o £0.138m i gefnogi gwaith uwchraddio hanfodol i'r system TG. Er bod rhywfaint o hyn yn wariant a gynlluniwyd, gwnaeth y dyraniad hwn helpu'r Comisiynydd i adfer yn sgil ymosodiad seiber difrifol ym mis Rhagfyr 2020. Byddwn yn darparu buddsoddiad cyfalaf o £0.050m yn 2022-23 er mwyn helpu'r Comisiynydd i barhau â'r gwaith o uwchraddio'r system TG yn dilyn yr ymosodiad seiber.

### **3.3 Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg**

#### ***Cynnydd manwl ar ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dosbarthiad y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.***

- 3.3.1 Mae'r gyllideb hon yn perthyn i BEL Seilwaith Addysg y MEG Addysg a'r Gymraeg. Mae'r cylch cyntaf o gyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn ystod 2018 wedi cefnogi 46 o brosiectau mewn 20 o awdurdodau lleol, ac wedi arwain at 2,818 o leoedd ychwanegol mewn gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r 46 o brosiectau yn mynd rhagddynt yn dda. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar ddyddiadau cwblhau rhai prosiectau sydd wedi cael eu symud ymlaen i ddyddiad hwyrach yn 2022.
- 3.3.2 Cyhoeddwyd swm pellach o £30m ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion CSCA lleol. Hon yw'r ail gyfran o fuddsoddiad o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Mae hyn yn ychwanegol at y dyraniad presennol a gyhoeddwyd ar gyfer Band B o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif. Daeth y cyfnod ar gyfer Mynegi Diddordeb i ben ar 22 Hydref 2021. Cyflwynwyd ceisiadau am symiau gwerth mwy na £125m i gyd ac maent wrthi'n cael eu hasesu ochr yn ochr â CSCAau drafft a chynigion ar gyfer grant trochi.

3.3.3 Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn amlinellu buddsoddiad o £45m dros y tair blynedd nesaf (£15m y flwyddyn) i roi cymorth parhaus i'n rhaglen cyfalaf cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cyllid sydd ei angen i gefnogi ymrwymadau sy'n weddill yn erbyn y cylch cyntaf o fuddsoddiad yn parhau i gael ei reoli fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.

### **Crynodeb**

Caiff y gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

**ATODIAD A – CYLLIDEBAU'R GYMRAEG YM MHRIF GRŴP GWARIANT Y GYMRAEG AC ADDYSG CYLLIDEB DDRAFFT 2022-23, RHAGOLYGNON 2021-22 AC ALLDRO TERFYNOL 2020-21**

**Cyllidebau adnoddau**

Cam gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol 2021-22 (Cyfnod 7) £000oedd	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22 £000oedd	Newidiadau 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Newidiadau 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Newidiadau 2024-25 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	12,710	13,475	15,034	13,475	4,300	17,775	3,000	20,775	3,500	24,275
<b>Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg</b>		<b>12,710</b>	<b>13,475</b>	<b>15,034</b>	<b>13,475</b>	<b>4,300</b>	<b>17,775</b>	<b>3,000</b>	<b>20,775</b>	<b>3,500</b>	<b>24,275</b>
Y Gymraeg	Y Gymraeg	21,232	20,949	21,658	21,065	1,384	22,449	0	22,449	0	22,449
	Comisiynydd y Gymraeg	3,136	3,323	3,248	3,207	120	3,327	0	3,327	0	3,327
<b>Cyfanswm y Gymraeg</b>		<b>24,368</b>	<b>24,272</b>	<b>24,906</b>	<b>24,272</b>	<b>1,504</b>	<b>25,776</b>	<b>0</b>	<b>25,776</b>	<b>0</b>	<b>25,776</b>
<b>ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU</b>		<b>37,078</b>	<b>37,747</b>	<b>39,940</b>	<b>37,747</b>	<b>5,804</b>	<b>43,551</b>	<b>3,000</b>	<b>46,551</b>	<b>3,500</b>	<b>50,051</b>

**Cyllidebau cyfalaf**

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol 2021-22 (Cyfnod 7) £000oedd	Cyllideb Derfynol 2021-22 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
Y Gymraeg	Y Gymraeg	148	0	0	0	0	0	0
	Comisiynydd y Gymraeg	293	30	256	30	50	50	50
<b>Cyfanswm y Gymraeg</b>		<b>441</b>	<b>30</b>	<b>256</b>	<b>30</b>	<b>50</b>	<b>50</b>	<b>50</b>
<b>ADDYSG – CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF</b>		<b>441</b>	<b>30</b>	<b>256</b>	<b>30</b>	<b>50</b>	<b>50</b>	<b>50</b>